PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 20 | Mai 14, 2026 | 50c.

# Cwrdd Chwarter yn mynd o'r capel i'r dafarn!

Nôl ym 1872, ar ôl cyfarfod cyntaf Undeb yr Annibynwyr yng nghapel Heol Awst, Caerfyrddin fe wnaeth y Llywydd, Gwilym Hiraethog, hebrwng y cynrychiolwyr i dafarn Y Drovers drws nesa – i gael bwyd, wrth gwrs! Parhau â'r traddodiad hwnnw wnaeth Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin trwy gerdded o gyfarfod boreuol ein Cwrdd Chwarter yng Nghapel y Graig, Tre-lech i fyny'r ffordd i Dafarn Beca. Yno, darparwyd cawl hynod flasus a phwdin i'r 40 oedd yno rhwng y bore a'r prynhawn. Ar ôl ei fwynhau a chymdeithasu, fe ganwyd emyn cyn i Caroline Harries ddarllen o'r Beibl a Terry James ein harwain mewn gweddi. Yna fe wnaeth Gareth Ioan, Cadeirydd y Cyfundeb, groesawu a chyflwyno Llinos Roberts, Cymorth Cristnogol.








## Cymorth Cristnogol

Tynnodd Llinos sylw at y ffaith fod yr elusen wedi dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed y llynedd, ac mewn byd cynyddol ansicr gyda rhyfeloedd ac argyfyngau eraill, ei bod yn dibynnu'n helaeth ar gefnogaeth eglwysi ac unigolion hael. Yn ôl adroddiad blynyddol yr elusen, bu Cymorth Cristnogol yn ymwneud â 463 o brosiectau ledled y byd, gan weithio drwy bartneriaid lleol. O'r £71m a godwyd y llynedd, cyfrannodd grwpiau lleol £52m, yn bennaf drwy Wythnos Cymorth Cristnogol, boreau coffi, gwasanaethau a rhoddion tawel.

## Yr Apêl eleni

Cyfeiriwyd hefyd at waith sensitif ond hanfodol yr elusen yn y Llain Orllewinol a'r Dwyrain Canol, lle mae partneriaid lleol yn cefnogi'r digartref, pobl mewn trawma a phlant sy'n dioddef, a hynny mewn modd gofalus er mwyn peidio peryglu'r gwaith ar lawr gwlad. Nodwyd fod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni'n cael ei chynnal ar 11–18 Mai, gyda'r ffocws ar Kenya, gwlad lle mae'r elusen wedi gweithio ers blynyddoedd lawer, ac sy'n wynebu ansicrwydd mawr a diffyg maeth, yn enwedig ymhlith plant, oherwydd newid hinsawdd.

## Rhoi effeithiol

Clywyd hefyd hanes personol Freda, gweddw sy'n byw ar gyrion Nairobi, sy'n cael cefnogaeth gan *Beacon of Hope* i geisio cadw ei phlant yn yr ysgol. Mae hi'n cynnal gardd fach, yn casglu dŵr glaw i ddyfrio'r ardd, ac yn gwerthu'r cynnyrch sydd dros ben er mwyn cynnal y teulu. Pwysleisiwyd pwysigrwydd rhoi, gan nodi bod trosglwyddo arian yn uniongyrchol yn ffordd fwy effeithiol oherwydd costau bancio, gan ddiolch yn ddiffuant am holl gyfraniadau'r eglwysi ac unigolion.

## Y cyfarfod yn y capel

Yng nghyfarfod y bore, bu Alyson Harries yn darllen a gweddïo, cyn i Jean Lewis roi hanes yr achos, a ffurfiwyd ym 1670. Dros y blynyddoedd fe wnaeth yr eglwys fagu'r nifer rhyfeddol o 48 o weinidogion. Bu'r eglwys yn ddi-weinidog ers 2021, er i Karen Owen dreulio cyfnod fel gweinidog dan hyfforddiant. Mae yna ysgol Sul fywiog, gyda'r bobl ifanc yn barod iawn i gymryd rhan yn ôl y galw. Yn ogystal â chyrddau ar y Sul, cynhelir oedfaon arbennig, gan gynnwys un ddwyieithog ar noswyl Nadolig a chanu carolau o gwmpas yr

*parhad ar dudalen 2*



# Difiau Dyrchafael

**Edrych i fyny, camu ymlaen: Actau 1**

Wrth i'r disgyblion sefyll yn rhythu oddi uchod wrth i Iesu esgyn, roedd cyfuniad o ryfeddod a dryswch yn eu calonnau. Ymddangosai fel pe bai pethau ar ben a chyfnod arbennig yn eu bywydau wedi dirwyn i ben fel diwedd pennod – ond mewn gwirionedd, nid felly oedd hi ond roedd yr esgyniad yn ddechrau newydd.

Nid gadael ei bobl wnaeth yr Iesu ond newid y berthynas oedd rhyngddynt o fod yn un corfforol i fod yn ysbrydol. Oherwydd trwy'r Ysbryd Glân – a ddeuai mewn grym anghyffredin ddeg diwrnod yn ddiweddarach – byddai'n dod yn nes nag erioed atynt, nid yn gorfforol, ond trwy i'r Ysbryd fyw yn eu calonnau.

Boed fy nghalon i ti'n demel,
Boed fy ysbryd i ti'n nyth
Ac o fewn i'r drigfan yma
Aros Iesu, aros byth
Gwledd wastadol
fydd dy bresenoldeb i'm.

WWP



Mae'r esgyniad yn ein hatgoffa nad yw ffydd yn golygu edrych yn ôl tua'r gorffennol yn barhaus, golyga hefyd ymddiried yn Nuw wrth symud ymlaen tua'r dyfodol. Meddai'r angel/negesydd: 'Chi Galileaid, beth dych chi'n ei wneud yma yn syllu i'r awyr? Mae Iesu wedi cael ei gymryd i'r nefoedd oddi wrthoch chi. Ond yn union yr un fath ag y gweloch e'n mynd bydd yn dod yn ôl eto.' (Actau 1:11)

Roedd y disgyblion yn cael eu hannog i beidio â sefyll yn eu hunfan yn llonydd gan syllu i'r awyr, ond i fynd allan i'r byd gyda neges o obaith. Efallai ein bod ninnau weithiau yn edrych yn ôl neu'n teimlo ein bod wedi'n gadael ar ein pennau ein hunain. Ond mae'r esgyniad yn adrodd stori wahanol: mae Iesu yn teyrnasu, yn eiriol drosom, ac yn gweithio trwom ni heddiw.

Felly heddiw, edrychwn i fyny mewn ffydd at ogoniant yr Iesu, ond hefyd cerddwn ymlaen gan weithredu dros yr Arglwydd a thros ei Deyrnas.

Ystyriwch y canlynol:

1. Beth yw arwyddocâd yr esgyniad wrth feddwl am bresenoldeb Iesu gyda ni heddiw?
2. Ydw i'n fwy tueddol o 'edrych i fyny' neu o 'gerdded ymlaen' mewn ffydd?
3. Sut alla i ufuddhau yn effeithiol i orchymyn Iesu i fyw'r newyddion da o ddydd i ddydd?

# Cwrdd Chwarter yn mynd o'r capel i'r dafarn! – parhad

ardal i godi arian tuag at elusennau. O ran y dyfodol, gobeithir ehangu'r ofalaeth a chael gweinidog neu arweinydd, ac ailddechrau'r Trafodaethau Beiblaidd a'r Clwb Drama a fu yn yr eglwys gynt.

## Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Cafwyd cyflwyniad gan y Parchg Tom Defis am y mater hollbwysig hwn, sy'n cynnwys mynychu'r cwrs hyfforddi a sicrhau tystysgrif DBS. Mae angen Swyddog Diogelwch ym mhob eglwys, a phetai rhywbeth amheus yn digwydd, mae'n hanfodol dilyn proses. Gofynnir i unrhyw un sydd â chwyn i roi gwybod i Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb. Yn ogystal â'r hyfforddiant ar-lein, bydd y Pwyllgor Gwaith yn trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb gyda Julie Edwards, sy'n byw yn Rhydaman. Mae'r hyfforddiant ar gyfer ymddiriedolwyr, diaconiaid, ymwelwyr â phobl fregus, swyddogion eglwysi, trigolion tŷ capel, gofalwyr capel, ac athrawon a rhai sy'n cynorthwyo yn yr ysgol Sul. O fewn y cyfundeb ar hyn o bryd, Jean Lewis a Tom Defis sy'n sicrhau bod y ffurflenni wedi'u llanw'n gywir. Rhaid, hefyd, cael yswiriant digonol, a chynnwys popeth, e.e. mynwent a thŷ capel.

Ar ddiwedd y cyfarfod, lle trafodwyd nifer o faterion eraill yn ymwneud â gwaith y cyfundeb, fe wnaeth y Parchg Gareth Ioan longyfarch Jean Lewis ar ddod yn Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr, a diolch i bawb wnaeth gyfrannau at lwyddiant cyfarfodydd prysur a bendithiol yn Nhre-lech.

**(Erthygl yn seiliedig ar nodiadau Joan Thomas, Cofnodydd y Cyfundeb)**

Y sefyllfa yn y Dwyrain Canol gafodd y sylw pennaf yn ystod y bore. Anfonwyd llythyr ar ran y Cyfundeb gan ein Cadeirydd y Parchg Gareth Ioan at Lysgennad yr Unol Daleithiau, ac fe gafwyd ymateb prydlon a chwrtais (gweler *Y Tyst, 16 Ebrill*). Anfonwyd llythyr arall at Lywodraeth Prydain, ac ers hynny cafwyd ymateb gan adran y wasg y llywodraeth. Dyma grynodeb byr iawn o lythyr hirfaith:

'Blaenoriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw parhau i ddiogelu pobl o Brydain sy'n byw yn y Dwyrain Canol, a chefnogi cynghreiriaid er mwyn ceisio atal y gwrthdaro rhag gwaethygu ymhellach. Dim ond drwy ddulliau diplomyddol y gellir sicrhau diwedd cyflym a pharhaol i'r sefyllfa. Mae rhwystro cludo nwyddau allweddol trwy Gulfor Hormuz eisoes yn cael effaith economaidd sylweddol, gan arwain at brisiau ynni uwch a phwysau ar gostau byw. Mae'r DU yn cydweithio'n agos â phartneriaid rhyngwladol i adfer diogelwch yn y rhanbarth, gan gynnwys sicrhau llif masnach diogel trwy'r culfor. Nid yw'r DU yn rhan o'r ymosodiadau cychwynnol ar Iran, ond rydym yn cymryd camau cyfyngedig ac amddiffynnol yn unol â chyfraith ryngwladol. Daw hyn wrth i fwy na 100,000 o wladolion Prydeinig gael cymorth i ddychwelyd yn ddiogel i'r DU.'

(Gellir gweld yr ymateb llawn ar wefan cyfundeb.com)

Yr Adran Gydenwadol

14 Mai 2026
Rhifyn 272

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2026

## Ieithoedd Lleiafrifol




Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd yn canolbwyntio ar Ieithoedd Lleiafrifol. Pwrpas y Neges yw addysgu pobl ar draws y byd am yr ieithoedd hyn, ac annog iddynt eu gwerthfawrogi, eu dysgu a'u defnyddio. Mae'r Neges yn agor trafodaeth ehangach am rôl iaith mewn empathi, cydraddoldeb a dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas.

Gyda dros 7,000 o ieithoedd ledled y byd, ac arbenigwyr yn rhagweld y bydd hanner ohonynt wedi diflannu erbyn diwedd y ganrif, mae'r Neges yn datgan yn glir yr angen i ni ddiogelu ieithoedd lleiafrifol cyn iddynt ddiflannu am byth.

Cafodd cynnwys a thrywydd neges eleni eu penderfynu gan fyfyrwyr Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria, Ysgol Morgan Llwyd ac Aelodau'r Urdd. Cynhaliwyd gweithdy ym Mhrifysgol Wrecsam ddiwedd Ionawr, ac yn dilyn y gweithdy aeth y bardd Marged Tudur ati i greu geiriau'r Neges, gyda Sioned Evans (Smei) yn creu animeiddiad o'r geiriau.

Nos Sul, 17 Mai, am 7.30 o'r gloch, bydd *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn rhoi sylw i'r neges fel rhan o'r rhaglen o Gapel Hyfrydle yng Nghaergybi, dan arweiniad Catrin Angharad Jones, ynghyd â pherfformiad arbennig gan Aelwyd yr Ynys. Bydd Lowri Morgan yn teithio i Fôn wrth i'r cyffro gynyddu ar gyfer gŵyl ieuenctid fwyaf Ewrop, Eisteddfod yr Urdd, yng nghwmni cadeirydd pwyllgor gwaith yr ŵyl, Dr Manon Wyn Williams.



*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Sefydlu Menter Chwildro

## penodi Delyth Wyn Davies yn Swyddog Cymunedol a Chenhadol

**Nos Sul y Pasg cynhaliwyd cyfarfod arbennig i sefydlu Delyth Wyn Davies yn Swyddog Cymunedol a Chenhadol i ofalaeth eglwysi ardal Chwilog. Mae Delyth wedi treulio 40 mlynedd mewn swyddi enwadol cenedlaethol, gan gefnogi ac annog cydweithio lleol. Bellach, mae hithau wedi ymgymryd â her newydd i roi llawer o'i gwybodaeth a'i phrofiad ar waith yn lleol. Treuliodd flynyddoedd yn gweithio i Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel Swyddog Gwaith Plant, wedi'i lleoli yng Ngholeg y Bala, gan dreulio cyfnod hefyd yn gweithio i Ofalaeth Berea Newydd ym Mangor. Bu hefyd yn gydlynydd y genhadaeth i BMS World Mission dan nawdd enwad y Bedyddwyr, ac yna'n gydlynydd hyfforddiant i'r Eglwys Fethodistaidd.**



*Delyth yn cael ei chomisiynu i'r gwaith yn Siloh, ac yn derbyn deheulaw cymdeithas gan y Parchg Carwyn Siddall*




**Nod Menter Chwildro yw galluogi'r eglwysi i estyn allan i'r gymuned ehangach. Cafodd ei chomisiynu i'r gwaith newydd gan y Parchg Carwyn Siddall. Dyma rannu ychydig o'i gweledigaeth:**

Mae'n fraint i mi gyflwyno fy hun fel Gweithiwr Cymunedol a Chenhadol i Fenter Gymunedol Chwildro yn dilyn y Gwasanaeth Comisiynu a gynhaliwyd fel rhan o Wasanaeth Sul y Pasg yn Eglwys Siloh, Chwilog.

Cafodd y swydd ei chreu yn dilyn cais llwyddiannus am grant gan Undeb yr Annibynwyr o dan y cynllun Cefnogi Cyfle. Pwrpas y grant yw annog pobl i fod yn flaengar i wneud gwahaniaeth o fewn cymunedau eu heglwysi a thu hwnt. Bwriad Menter Gymunedol Chwildro yw creu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd drwy amrywiol weithgareddau sy'n creu ymdeimlad o berthyn a pherthynas ac yn cwrdd ag anghenion pobl o fewn y gymuned. Y gobaith yw y bydd y fenter yn cynnig rhywbeth i bobl o bob oed, o'r ieuengaf i'r hynaf, ac yn gwneud gwahaniaeth yn eu bywydau.

Mae'r syniad o eglwys yn estyn allan at ei chymuned i rannu cariad Iesu Grist mewn ffyrdd gofalgar ac ymarferol wedi bod yn agos iawn at fy nghalon i erioed. Wedi blynyddoedd lawer o weithio mewn swyddi cenedlaethol mewn gwahanol enwadau yng Nghymru a thu hwnt, yn annog disgyblion Iesu Grist i estyn allan i'w cymuned leol mewn amrywiol ffyrdd, rwyf bellach yn cael y cyfle i ddaearu'r hyn rwyf wedi ei ddysgu mewn eglwys leol. A fedrwch chi ddim bod yn fwy lleol na hyn – rydw i'n byw ychydig ddrysau i fyny o'r capel!

Does gan yr un ohonom syniad sut yn union y bydd hyn yn edrych wrth i'r fenter ddatblygu. Pan wnaed y cais am grant Cefnogi Cyfle rhestrwyd nifer o syniadau o weithgareddau posibl ac mae gen i fy syniadau fy hunan hefyd. Ymhlith y rhain y mae Lle cynnes, Clwb darllen, Caffi galar, Clwb gwaith cartref/adolygu, Gwaith ieuenctid, Gweithgaredd plant 7–11 oed, a Chlwb Dysgwyr.


Ond ofer fyddai ceisio gwneud y rhain os nad yw'r angen amdanynt yn bod. Gan mai cynllun cymunedol yw hwn, mae angen eich syniadau chi hefyd, yn aelodau'r eglwys a'r ofalaeth, yn gyfeillion ac yn aelodau o'r gymuned yn Chwilog ac yn yr ardal, er mwyn i ni ddirnad beth sydd wir ei angen i fod o fudd i'r gymuned. Beth yw eich barn chi ar sut all y fenter wasanaethu'r gymuned rydym yn rhan ohoni?

Cynhelir cyfarfod arbennig i lansio'r fenter a thrafod syniadau am weithgareddau yn Festri Siloh nos Lun, 27 Ebrill, am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb – does dim rhaid bod yn aelod mewn capel i gyfrannu eich syniadau a chymryd rhan. Yn ogystal, os teimlwch fod gennych amser i'w roi i wirfoddoli fel rhan o'r fenter rhowch wybod i mi, gan nodi pa faes sydd o ddiddordeb i chi. Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â chi a gwasanaethu'r gymuned efo'n gilydd.



# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 22

## Ymson Sheba

Ar awel yr anialwch clywyd sibrydion am ddyfodiad Sheba. Fi yw honno – y frenhines gyfoethog, hardd, ond ymchwilgar. Clywais innau ar yr awel am frenin, a'i ddoethineb a ddeuai o Dduw. Pe baech yn darllen fy hanes i, mae sôn am fy siwrnai, oes, ond nid am y pwysau i gael gwybod am y gwir. Cefais fy nghymell gan ryw dân i deithio dros y twyni maith.

Roedd pwysau trwm ar fy nghamelod hefyd. Carient y peraroglau a'r perlysiau, yr aur a'r gemau gwerthfawr. Roedd y cyfan yn disgleirio fel sêr wrth imi deithio ac yn f'amgylchynu â goleuni. Allwn i ddim mynd yn waglaw, ond nid y pethau hyn oedd yn bwysig mewn gwirionedd. Arwydd oeddynt o 'mharch tuag at y brenin a fyddai, gobeithio, yn rhoi imi atebion. Ar bob cam o'r ffordd, cydgerddai fy nghwestiynau a'm hamheuon â mi, fel haenau o niwl yn fy meddwl. Wnâi hynny mo'r tro, gan mai person ydwyf sy'n dyheu am ddealltwriaeth.

O'm blaen roedd dinas Jerwsalem yn ei holl ysblander. Gwyddwn fod labyrinth coridorau'r palas yn llawn o bobl ddysgedig. Ac yn y canol yr oedd Solomon. A dyna lle y dymunwn innau fod – yn y canol, yn canolbwyntio ar dderbyn a deall.

O'r diwedd, cyrhaeddais. O'm blaen, am y tro cyntaf erioed, safai Solomon. Nid oedd iotyn o haerllugrwydd yn ei wedd. Hoffais hynny'n fawr. Holais; gwrandawodd yntau'n bwyllog. Yn ei atebion canfyddais y claerineb yr oeddwn yn dyheu amdano.

Doedd dim un cwestiwn yn ormod iddo; dim un pos na rhigwm na allai ei ddatrys. Ces fy synnu gan ei allu. Synnais fwyfwy ar y doethineb a lifai ohono, fel petai'n llestr pridd yn tywallt y gwin melysaf drosof. Gwelais y deml yr oedd ei weithwyr wedi'i hadeiladu, a'r sancteiddrwydd mwyaf grymus wedi'i osod yn ei chonglfeini. Roedd rhywbeth arbennig yma ac ro'n i eisiau bod yn rhan ohono rywsut. Gwnaeth imi deimlo mor wylaidd.

Collwn f'anadl wrth iddo siarad, nid oherwydd imi gael fy nychryn, ond am imi gael fy ngoleuo. Roedd ei ddoethineb yn fwy o lawer nag yr oeddwn wedi'i ddisgwyl. Cyfaddefais wrtho mai hanner y gwir yr oeddwn wedi'i dderbyn hyd yma. Gwelais sut yr oedd Solomon wedi amgylchynu ei hun, nid â chyfoeth ond â ffafr, ffafr Duw. Roedd dwyfoldeb a'r Dwyfol yn pelydru o'i feddwl fel y goron brydferthaf a welais erioed!

Rhoddais iddo'r cyfan yr oeddwn wedi'i gludo gyda mi, nid fel taliad, ond yn hytrach fel arwydd o'm parch tuag ato. Rhoddodd ef i mi lawer iawn mwy na hynny. Roedd ei roi hael a rhydd yn mynd yn bellach nag unrhyw draddodiad nac arferiad i ymwelydd fel fi. Fe dderbyniais drysor a thrysorau di-ri yn ei eiriau melys.

Dychwelais i 'ngwlad fy hun wedi f'adnewyddu. Cefais weld ei deyrnas fel ffynnon o ddŵr bywiol yn yr anialwch. Roedd y dŵr bywiol wedi fy nisychedu. Deallais sut y gall doethineb, ac nid concwest, roi trefn ar bethau'r byd. Daeth y ddealltwriaeth dawel, a'r ddirnadaeth ym mêr f'esgyrn, mai derbyn grym y mae rhywun, ac nid ei ennill.

Bydd pobl ar hyd yr oesau'n cofio am fy nhrysorau bydol, fy harddwch, fy ngosgeiddigrwydd. Fe gofiaf innau am y gwir a roddwyd imi. Es at Solomon am atebion; fe'u cefais, do, ond yn fwy na hynny, fe dderbyniais ogwydd meddwl â'm deffrôdd o drwmgwsg anwybodaeth.

**Holi**

• Mewn byd o wybodaeth ddigidol gyflym, sut allwn ni fod yn fwriadol ymchwilgar yn hytrach na setlo am atebion arwynebol? Beth sy'n cymell ein teithio tuag at ddirnadaeth ddyfnach?

• Ydych chi erioed wedi darganfod rhywun neu rywbeth – boed am ffydd, neu bobl, neu Dduw – oedd yn fwy na'ch disgwyliadau? Sut wnaethoch chi ymateb: ag amheuaeth, gostyngeiddrwydd, neu wrthsafiad?

• Sylweddololdd Sheba fod Solomon yn byw doethineb, nid yn unig yn ei eiriau ond yn ei fywyd gweithredol. Yn y cyd-destun modern, pa dystiolaeth weladwy o ddoethineb neu ffydd ddylai eraill allu ei gweld yn ein bywydau beunyddiol?

• Cafodd Sheba ei thrawsnewid gan yr hyn a brofodd. Ar ôl profiadau o fewnwelediad ysbrydol, sut allwn ni gario'r newidiadau yn ein trefn ddyddiol, ein perthnasoedd, a'n penderfyniadau?

**Gweddi**

Cofiwn am werth doethineb. Diolchwn am y bobl sydd wedi ein goleuo, ac sy'n parhau i wneud hynny. Deisyfwn y ddealltwriaeth sy'n rhoi i ni adnabyddiaeth ohonot Ti. Bydd yn gymorth inni fod yn ostyngedig ac yn agored i rym yr Ysbryd. Helpa ni i fod yn hael – gyda'n hamser, yn ein geiriau, a'n hadnoddau. Pan brofwn dy bresenoldeb, symud ni o'n difaterwch, a thrawsnewidia ni. Amen.

*Sian Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 17 Mai 2026**

**Radio Cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 17 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**
Hoff emynau rhai o aelodau Gofalaeth Glannau Ogwr

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 17 Mai am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Emlyn Dole, Pontyberem

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 17 Mai, am 7:30yh**
**Môn, Mam Cymru**
Bydd Lowri Morgan yn ymweld â dalgylch Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ynys Môn.

# Capel y Nant a'r Pum Peth Personol

Yn ystod tymor y Grawys eleni, bu cynulleidfa Capel y Nant yn canolbwyntio ar yr elfen gyntaf o'r Pum Peth Personol, sef Bwyd, a chafwyd digon i gnoi cil arno wrth ystyried rôl bwyd yn ein bywydau a'r holl ddewisiadau mae pawb ohonom yn eu gwneud bob dydd yng nghyswllt bwyd.

Buom ni'n myfyrio ar ein rôl fel stiwardiaid y cread, ac yn rhoi sylw i'r gadwyn fwyd, a'r modd y mae bwyd yn dod â phobl ynghyd. Ar hyd cyfnod y Grawys, gofynnwyd i bawb ddod â cheiniogau i'r oedfa i'w hychwanegu at y llestr, gyda phob ceiniog yn cynrychioli dewis gofalgar roedden nhw wedi'i wneud, ac roedd y dewisiadau gofalgar hynny yn cynnwys rhai o'r canlynol:

- dewis cynnyrch organig neu fasnach deg am y tro cyntaf
- dewis pryd llysieuol yn hytrach na chig
- gwneud dewis oedd yn osgoi gwastraff
- edrych yn fwy manwl ar o ble roedd cynnyrch penodol yn dod, er mwyn lleihau milltiroedd bwyd.

Wrth i'r wythnosau fynd heibio, gwelwyd y ceiniogau'n crynhoi'n sylweddol yn y llestr, ac rydyn ni nawr yn edrych ymlaen at droi ein sylw at elfennau eraill y Pum Peth Personol yn eu tro.




### Gweddïau Bwyd

*Dyma dair gweddi a gyfansoddwyd gan aelodau Capel Y Nant wrth fyfyrio ar y cyntaf o'r Pum Peth Personol sef, bwyd.*

Arglwydd Dduw, diolchwn i ti am holl ryfeddodau dy gread, a'r patrymau cyfrin sy'n cynnal bywyd ar y ddaear. Rhyfeddwn at y modd y mae hadau pitw yn tyfu'n blanhigion cryf i'n bwydo, ac at y maeth a'r cyfoeth o gnydau a ddaw i ni o'r ddaear. Yn fwy na dim, rhyfeddwn a diolchwn am y fraint o gael bod yn stiwardiaid ar dy greadigaeth.

Maddau i ni, O Arglwydd, ein bod ni'n gallu bod mor ddibris o'r blaned a roddaist yn gartref i ni, a'n bod ni'n trin y bywyd a roddaist ar y ddaear mewn modd mor ddi-hid a di-barch. Gwna ni'n wirioneddol ddiolchgar am ein bara beunyddiol, a hefyd yn ymwybodol o'r ymdrech a wneir gan gynifer er mwyn i ni gael detholiad blasus o fwyd ar ein platiau.

Gwna ni'n ofalgar wrth drin y ddaear a'i chreaduriaid, ac wrth i ni fwynhau'r holl gyfoeth o fwyd sydd ar gael i ni, gwna ni bob amser yn ymwybodol o'r rhai sydd heb ddigon, sy'n pryderu o ble mae eu pryd nesaf yn mynd i ddod, neu sy'n gorfod gwneud dewisiadau amhosibl o anodd wrth geisio bwydo'u teuluoedd.

Llanw ein calonnau â chariad, O Dad, fel bod ein holl ddewisiadau cysylltiedig â bwyd yn rhai gwirioneddol ofalgar. Amen

---

Arglwydd ein Duw, gwyddom mai eiddot ti yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo. Diolchwn i ti am holl adnoddau'r ddaear, a'th haelioni sy'n darparu cymaint o amrywiaeth a digonedd. Diolchwn am ffrwythlondeb ein byd, yr heulwen a'r glaw, a phopeth sy'n cynnal bywyd.

Maddau i ni, O Dad, ein bod ni'n aml yn cymryd y cyfan yn ganiataol, ac yn gwastraffu dy haelioni, neu'n cadw gormod i ni'n hunain, heb feddwl am eraill.

Wrth i ni ddiolch am ein bwyd, diolchwn hefyd am bawb sy'n rhan o'r broses o'i ddarparu i ni, o'r ffermwyr a'r cynaeafwyr i'r rhai sy'n pecynnu a dosbarthu, siopwyr, cogyddion a phawb sy'n cyfrannu at ein bwydo.

Gweddïwn hefyd dros bawb sy'n gweithio i borthi'r newynog, mewn banciau bwyd yn y rhan hon o'r byd, a thrwy ymdrechion dyngarol mewn gwledydd sy'n dioddef effaith trychinebau naturiol a rhyfeloedd. Gwna ninnau'n hael yn ein hymwneud â'r rhai sy'n llai ffodus na ni, a llanw ni â chariad gweithredol fel y gallwn fod yn draed a dwylo i ti ar y ddaear. Amen

---

Dduw Dad, mae cymaint o'r broses sy'n darparu ein bwyd y tu hwnt i'n profiad ac allan o'n golwg. Llanw ni ag angerdd dros sicrhau bod y bwyd a fwytawn yn ddewis gofalgar, yn llesol i'w gynhyrchwyr, yn parchu'r ddaear a'i hadnoddau, ac yn gynaliadwy, yn ogystal â bod yn faeth i ni.

Llanw ni ag awydd o'r newydd i rannu adnoddau'r ddaear yn decach ag eraill. Nertha ni i godi llais yn erbyn systemau annheg sy'n cadw'r tlawd dan ormes, ac arferion llwgr sy'n cynnal cyfoeth yr ychydig pwerus. Gwna ni'n barod i nofio yn erbyn y llif, gan fynnu tâl teg i weithwyr, gofalu am y cread, a bodloni ar lai ein hunain, er mwyn i eraill gael cyfle i fyw.

Gwna ni'n wirioneddol ddiolchgar am ein bwyd, O Dduw, a boed i ni ddangos y diolchgarwch hwnnw mewn ffyrdd ymarferol sydd yn wir yn arwydd o'n cariad atat ti ac at ein cymdogion ar draws y byd. Amen.



# Barn Annibynnol

## Cyfnod stormus i Gymru

Mae hi'n nos Sul, 3 Mai wrth i mi eistedd lawr i lunio Barn Annibynnol. Mae pedair noson o gwsg i ddod cyn etholiad pwysicaf Cymru mewn cenhedlaeth. Weithiau, y ddawn byddwn i yn ei dymuno fyddai'r ddawn i hedfan; heno, y ddawn rwy'n ei dymuno yw dawn proffwydo. Efallai bydd holl gynnwys y Barn Annibynnol hwn yn gwbl ddiystyr erbyn i chi ei ddarllen. Neu efallai y bydd yr hyn a ddaw yn amlygu dawn anarferol yr awdur i ragweld digwyddiadau'r wythnos nesaf.




### Cymru ranedig...

Fel y mae pethau'n sefyll, mae hi'n ymddangos fod hollt wleidyddol go fawr yng Nghymru. Mae hynny ar sawl lefel, rhwng rheiny sy'n gweld eu hunain yn Brydeinwyr a'r rhai sy'n gweld eu hunain yn Gymry yn gyntaf, rhwng y rhai sydd wedi derbyn addysg uwch a'r gweddill, ac rwy'n tybio fod hollt go fawr rhwng rheiny sy'n mynychu capel anghydffurfiol a nifer go fawr o'u cymdogion.

Mi fyddai'n dda meddwl bod dilynwyr Iesu Grist yn fras yn cwympo ar yr un ochr i'r dadleuon hyn fel teulu byd-eang dedwydd cytûn, ond nid fel 'na mae hi o fewn y teulu Cristnogol.

I'r rheiny sy'n treulio amser ar y cyfryngau cymdeithasol, byddwch wedi eich siomi droeon wrth weld cyd-Gristnogion yn arddel safbwyntiau eithafol asgell dde. Mae rhai sy'n gwrthwynebu gweithredu i amddiffyn yr amgylchedd achos mai 'mater i Dduw yw sortio'r amgylchedd.' Un arall rhyfeddol y bore 'ma oedd gweld hysbyseb gan ICE yn America. Gyda'r




gwariant enfawr mae Trump wedi ei neilltuo at waith y criw sy'n cipio pobl 'estron' oddi ar y strydoedd ac o'u gweithleoedd a'u cymryd i ganolfannau (gwersylloedd crynhoi?) mae angen recriwtio miloedd o staff ychwanegol i gyflawni'r gwaith. Rhyfeddod oedd gweld eu hysbyseb yn cloi gyda'r geiriau yn cymell pobl i weithredu ar anogaeth y Beibl 'Iôr, anfona fi.... / Lord, send me.' Syndod arall oedd clywed Llefarydd Tŷ'r Cynrychiolwyr yn America, Mike Johnson, yn beirniadu gwleidyddion yr wrthblaid sy'n gwrthwynebu Trump, gan eu hatgoffa fod yr Apostol Paul yn cymell Cristnogion i ufuddhau i'r awdurdodau gwleidyddol.

### Gwaith i'r Undeb...

Yn y fath hinsawdd ryngwladol, mae hi'n hanfodol ein bod ni yn gadarn wrth ddiffinio ein safbwyntiau ar faterion moesol a gwleidyddol. Mae hanfod annibynia yn gorseddu rhyddid barn, ac yn mawrygu annibyniaeth yr eglwys leol. Fodd bynnag, mae gyda ni ein fforwm blynyddol trwy gynhadledd yr Undeb i geisio cytundeb barn, a mynegi'n barn ar faterion o bwys. Yn ein byd helbulus, bydd hi'n ddiddorol gweld pa ddatganiadau caiff eu cymeradwyo eleni, gan obeithio y gall Undeb yr Annibynwyr siarad ag un llais i fynegi barnau cwbl greiddiol mewn byd mor rhanedig.

### Gwaith i ni......?

Ar yr un pryd, mae pryder arall wedi ei amlygu ei hunan yn fawr yn ystod y trafodaethau etholiadol yng Nghymru. Mynegwyd pryder am ansawdd nifer o'r ymgeiswyr i'n Senedd – a hynny ar draws pob un o'r pleidiau. Dim ond tua 2.5 % o boblogaeth yr ynysoedd hyn sy'n perthyn i blaid wleidyddol, ond mae 100% o'n harweinwyr gwleidyddol yn gorfod dod o'r grŵp bach hwn. Ydy hyn yn ffordd gyfrifol o redeg gwlad?

Efallai y daeth yr amser i ni weithredu ar y ddau ffrynt. I'n heglwysi a'n hundeb fod yn barod i gynyddu ein gweithgarwch yn mynegi safbwyntiau cyhoeddus ar faterion cyfiawnder, cydraddoldeb a heddwch, ond hefyd efallai ei bod hi'n bryd i ni fel unigolion ymrwymo i'r blaid wleidyddol agosaf at ein daliadau er mwyn ceisio dylanwadu ar ansawdd y ddeialog sydd yn digwydd o'n hamgylch.

Mae gwir angen i ni weithredu ar bob lefel posib. Beth amdani yn 2026 a 2027?

**Geraint Rees**

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)


Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Cyfres o chwe sesiwn yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd yr eglwys.**

Cyfarfodydd ar nos Fawrth am 7:00

| | |
|---|---|
| 05/05 | **Gweinyddu Eglwys**<br>Ifan Alun Puw |
| 12/05 | **Cynnal Cyfarfod Eglwys**<br>Parchg Ddr Alun Tudur |
| 19/05 | **Beth yw Diacon?**<br>Parchg Beti-Wyn James |
| 02/06 | **Cynllunio'n Cenhadaeth**<br>Gwilym Jeffs |
| 09/06 | **Gweinyddu'r Sacramentau**<br>Parchg Carwyn Siddall |
| 16/06 | **Timoedd yn arwain yr eglwys**<br>Dan arweiniad aelodau Peniel a Bwlchycorn |

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall, carwyn@annibynwyr.cymru

LLEOLIADAU'R HYBIAU

- Emaus, Bangor, LL57 1NS
- Siloh, Chwilog, LL53 6SH
- Bethel, Melin y Coed, LL26 0SL
- Canolfan Henblas, Y Bala, LL23 7AE
- Neuadd Dinas Mawddwy, SY20 9JD
- Moriah, Llanfair Caereinion, SY21 0DN
- Y Neuadd, Maenclochog, SA66 7JY
- Gellimanwydd, Rhydaman, SA18 2NA
- Bethlehem Newydd, Pwll-Trap, SA33 4AN
- Capel y Nant, Clydach, SA6 5HB
- Tabernacl, Porthcawl, CF36 3DW
- Capel Minny Street, Caerdydd, CF24 4ER

Ym mha hwb fyddwch chi?

Croeso cynnes i bawb!



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dydd Gweddi'r Byd

Cynhaliwyd pwyllgor yng Nghapel y Garn, Bow Street, gyda chynrychiolaeth o'r enwadau, rhai yn bresennol yn y Festri, aml un ar Zoom a rhai yn ymddiheuro! Bwriad y pwyllgor oedd trefnu rhag blaen ar gyfer gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2027 a dyfarnu rhoddion trwy grantiau penodol i weithgareddau amrywiol.



# Côr Bois Glantaf



7.00 nos Fercher 20 Mai

Eglwys Teilo Sant, yr Eglwys Newydd

Arweinydd – Lloyd Macey

Pris – £10.00. Plant am ddim

Talu wrth y drws

Bydd casgliad tuag at elusen Y Samariaid. Trefnir gan Eglwys Ebeneser

## Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin



Y Gymdeithas

# COFIO ANN GRIFFITHS

(1776-1805)

*i nodi 250 mlynedd ei geni*

Darlithydd:
YR ATHRO E. WYN JAMES

Gyda
HELEN GIBBON
*yn canu detholiad o emynau Ann Griffiths*

DYDD MAWRTH, 19 MAI 2026
am 2.00 yp

FESTRI CAPEL HEOL AWST, CAERFYRDDIN SA31 3AP

CROESO CYNNES I BAWB

# PROSIECT DENMAN 2026

Ein hysgol Sul: **'Newid ein byd er gwell'**

Ewch ati i greu podlediad / hysbyseb / fideo (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema 'Newid ein byd er gwell'



**Erbyn dydd Iau**
4 Mehefin 2026

**E-bostiwch:**
rhodri@annibynwyr.cymru

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ



**MANYLION:**
01792 795888
annibynwyr.cymru

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*